CSCC POSW
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Planning Officers Society Wales

Get in Touch
www.posw.wales
enquiries@posw.wales

Neil Hemington, Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

17 Medi 2025

Annwyl Neil

Ymateb CSCC i ryddhau data asesu cyflwr rheoliad Morol 37 gan CNC

Ysgrifennaf atoch ar ran Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (CSCC) ynglŷn â'r data morol diweddar a'r wybodaeth gysylltiedig a gyhoeddwyd gan CNC. Pwrpas fy llythyr yw tynnu sylw at yr effaith negyddol enfawr y mae hyn yn ei chael ar allu Awdurdodau Cynllunio Lleol ledled Cymru i gyflwyno datblygiadau cynaliadwy, yn enwedig yn Ne-orllewin Cymru ac Ynys Môn, a gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys yn hyn o beth.

Er bod CSCC yn cefnogi'r nodau cyffredinol, sef gwella ansawdd dŵr a diogelu amgylcheddau morol, mae'r ffordd y mae CNC wedi rhyddhau a gweithredu ar y wybodaeth hon wedi codi nifer o broblemau gweithredol a thechnegol a phroblemau o safbwynt adnoddau, ac wedi gadael awdurdodau lleol a'r sector datblygu yn gwegian o ganlyniad.

Mae'n amlwg eisoes bod gan yr effeithiau economaidd a chymdeithasol ar ranbarth y De-orllewin y potensial i fod yn arwyddocaol iawn, gyda'r sefyllfa i bob pwrpas yn atal awdurdodau lleol rhag cyflawni ei rôl hanfodol o safbwynt hwyluso datblygiad cynaliadwy trwy'r broses gynllunio. Mae hyn yn cynnwys rhwystro rhai miloedd o gartrefi y mae angen dybryd amdanynt rhag cael eu hadeiladu, cartrefi y byddai cyfran sylweddol ohonynt yn dai fforddiadwy. Nid oes amheuaeth y bydd targedau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, a'i dyheadau ei hun i gyflawni twf ar draws Bae Abertawe ac Ardal Twf Cenedlaethol Llanelli, yn cael eu lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r mater hwn oni bai y gweithredir ar frys yn hyn o beth.

Mae CSCC yn gofyn yn barchus am gefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru i geisio eglurhad a datrysiad brys ar y materion canlynol:

1. **Capasiti gweithfeydd trin**

   Cyhoeddi datganiad sefyllfa gan CNC ar sut y dylid ystyried capasiti Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff i ddarparu ar gyfer llif hyd at lefelau a ganiateir mewn perthynas â niwtraliaeth maetholion.

2. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer PFF a DWFC**

Mae angen gwybodaeth ynghylch a ddylai gofynion o ran Llif Pasio Ymlaen (PFF) a Llif yn Ystod Tywydd Sych (DWF) fod yn ddarostyngedig i ARhC. Mae gan hyn oblygiadau uniongyrchol ar y modd y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn asesu ceisiadau ac yn penderfynu arnynt.

3. **Cyllid a Chylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli Maetholion Morol (RhMM)**

   Rydym yn ceisio cadarnhad ffurfiol mai cylch gorchwyl y Bwrdd RhMM yw ymestyn y dalgylch er mwyn cynnwys yr amgylchedd morol a mofyn sicrwydd ynghylch cyllido'r Bwrdd RhMM yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r cylch gwaith estynedig a'r galw cynyddol ar adnoddau llywodraeth leol a'r angen am gyngor arbenigol.

4. **Llinell amser ar gyfer Uwchraddio Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Morol**

   Mae amserlen glir ac ymrwymedig ar gyfer uwchraddio'r gyfrifiannell maetholion morol yn hanfodol ar gyfer cynllunio ymlaen llaw a gwneud penderfyniadau.

5. **Gwaith Dosrannu Ffynhonnell**

   Mae angen cadarnhad ar pryd y bydd y gwaith dosrannu ffynhonnell yn cael ei wneud a'i gwblhau, gan fod hyn yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer strategaethau lliniaru.

6. **Canllawiau Lliniaru Maetholion**

   Eglurhad ynghylch a yw LlC/CNC yn ceisio cynhyrchu canllawiau lliniaru o ran maetholion i ALl ac a ydynt yn bwriadu sefydlu system fasnachu o ran credyd maetholion ar gyfer Cymru. Ar ben hynny, mae ACLl mewn mwy o berygl o gael eu herio o ganlyniad i'r canllawiau coll hyn, sy'n gostus ac yn arwain yn anorfod at oedi pellach i'r broses gynllunio.

7. **Gofynion ar gyfer Carthffosydd Preifat**

   Eglurder ynghylch derbynioldeb defnyddio gweithfeydd trin carthffosiaeth preifat mewn ardaloedd â charthffosydd lle mae tystiolaeth o fanteision amgylcheddol i'r ACA morol (fel yr amlinellir yng nghyngor CNC ynghylch 'Trin carthffosiaeth breifat mewn ardal â charthffos gyhoeddus') i ddangos nad yw'n bosibl cysylltu â charthffos gyhoeddus a sut mae hyn yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru Chylchlythyr 008/2018.

8. **Cyllid i ACLl a CNC**
   Gofynnwn i Lywodraeth Cymru archwilio a oes sgôp ar gyfer dyfarnu cyllid yn uniongyrchol i ACLl i gefnogi cyngor ARhC a/neu benodi Swyddogion Maetholion Morol pwrpasol. Byddai hyn o gymorth i leddfu'r pwysau ar adnoddau lleol a gwella cyflawniad. Nid yw'n glir i ACLl sut mae'r adnodd ychwanegol a ddarparwyd i CNC hyd yn hyn – deëllir bod y swm yn £400k - wedi helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn neu wedi bod o fudd uniongyrchol/anuniongyrchol i ACLl.

9. **Effaith ar Adnoddau Llywodraeth Leol**

   Mae effaith gronnol y gofynion hyn yn rhoi straen sylweddol ar gapasiti ACLl. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gydnabod hyn a gweithio ar y cyd i ddod o hyd i ddatrysiadau o ran adnoddau. Gallu cyfyngedig sydd gan ACLl i fynd i'r afael â'r mater oherwydd diffyg o ran y ddarpariaeth o adnoddau.

Get in Touch
www.posw.wales
enquiries@posw.wales

10. **Sylfaen Dystiolaeth Lliniaru Nitradau**

    Mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn a hygyrch i gefnogi'r mater o liniaru nitradau. Heb hyn, nid yw ACLl yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar lefel strategol na phrosesu cynlluniau lliniaru gan ddatblygwr ar lefel cais (hyd yn oed gyda chyfrifiannell forol).

11. **Achos Prawf**

    Dechrau achosion prawf dan arweiniad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio cyngor presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â ffosffadau ar gyfer nitradau i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar gyfer darparu tai fforddiadwy o fewn dalgylchoedd niwtraliaeth maetholion yr effeithir arnynt.

12. **IROPI**

    Datganiad sefyllfa gan LlC ar briodoldeb cymhwyso defnydd o IROPI i gynigion tai a datblygu economaidd o fewn dalgylchoedd niwtraliaeth maetholion.

13. **Proses Ymgynghori**

    Mae CSCC yn siomedig yn ansawdd y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan CNC, yn enwedig o ystyried ymrwymiadau blaenorol i wella ymgysylltiad ar ôl rhyddhau ffosffadau yn 2021 ac mae hefyd yn cwestiynu sut y gwnaed y fath benderfyniad i gyhoeddi'r cyngor o ystyried y 5 ffordd o weithio i gyrff cyhoeddus sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae CSCC yn bryderus iawn ynglŷn â'r modd y mae CNC wedi ymdrin â'r data morol diweddar. Er gwaethaf y gwersi sylweddol y dylid bod wedi'u dysgu o'r arllwysiad i ddalgylch afon mewn Ardal Gadwraeth Arbennig, mae CNC unwaith eto wedi bwrw ymlaen heb ymgysylltu'n briodol ac wedi methu â darparu gwybodaeth ategol hanfodol. Mae'r diffyg o ran canllawiau, gwaith dosrannu ffynhonnell, a hyd yn oed gwaith mapio sylfaenol ar gyfer yr awdurdodau y mae hyn yn cael effaith arnynt, yn annerbyniol. Mae'r diffyg hwn o ran paratoi a thryloywder wedi rhoi baich gormodol ar y system gynllunio a'r diwydiant datblygu, gyda chanlyniadau difrifol i'r broses o ddarparu tai a'r gallu i gyflawni dyheadau o safbwynt adfywiad a datblygiad economaidd ar hyd a lled Cymru.

Mae'n arbennig o frawychus bod CNC wedi rhyddhau'r set ddata hon - ynghyd â datganiad cadarnhaol i'r wasg – yn mynegi lefel o hyder yn y data ei hun, ond ddim yn cynnig unrhyw eglurder na hyder ynghylch ei achosion sylfaenol. Nid ydym wedi cael gwybodaeth byth am brif ffynhonnell y nitrogen anorganig toddedig yn ein hamgylcheddau morol, ond eto mae disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol atal datblygiad tai tra bod y gwaith sylfaenol hwn yn cael ei wneud.

Mae'r ymagwedd hon nid yn unig yn anghymesur ond hefyd yn anamddiffynadwy. Fel gofyniad sylfaenol, rhaid darparu gwybodaeth glir i ACLl am ba fesurau lliniaru y gall datblygwyr eu defnyddio, eu heffeithiolrwydd disgwyliedig, ac a fydd CNC yn caniatáu eu defnyddio. Roedd hwn yn gam hanfodol ar ôl yr arllwysiad i'r afon, ac mae'n rhaid ei ailadrodd yma. Rhaid i CNC egluro ar frys yr hyn y mae'n eu hystyried yn gamau lliniaru priodol ar gyfer y lleoliadau yr

Get in Touch
www.posw.wales
enquiries@posw.wales

effeithir arnynt, graddfa'r ymyrraeth sydd ei hangen, a'i safbwynt ar ganiatáu mesurau o'r fath. Tan hynny, mae'r diwydiant datblygu a'r cymunedau hynny sydd angen tai yn cael eu gadael mewn limbo.

Yn Lloegr, mae cymorth cenedlaethol sylweddol ar gael i fynd i'r afael â heriau niwtraliaeth maetholion, gyda Natural England yn gweithredu Cynllun Lliniaru Maetholion gwerth £30 miliwn ac awdurdodau cynllunio lleol yn gallu cyflwyno cais am gyllid drwy'r Gronfa Lliniaru Maetholion Leol gwerth £110 miliwn. Mewn cyferbyniad, nid yw Cymru wedi cadarnhau unrhyw gyllid hirdymor diogel ar gyfer y Byrddau Rheoli Maetholion sydd ar waith ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw sicrwydd yn y dyfodol o gyllid ar gyfer BRhM ychwanegol y bydd eu hangen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â maetholion morol. Mae'r diffyg ymrwymiad ariannol hwn yn rhoi ACLl Cymru (sydd eisoes yn cael trafferth gydag adnoddau) a'r diwydiant datblygu yng Nghymru dan anfantais sylweddol, gan danseilio ymdrechion i ddarparu tai a seilwaith tra'n ceisio bodloni rhwymedigaethau amgylcheddol.

Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y pryderon hyn ymhellach a archwilio am atebion adeiladol sy'n cefnogi diogelu'r amgylchedd a chyflawni'r broses gynllunio yn effeithiol.

Yn gywir

Sara Morris

Cadeirydd, ar ran aelodau CSCC